Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Eglwys yng Nghymru Trefonnen

**Heol Trefonnen**
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 5EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Eglwys yng Nghymru Trefonnen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Eglwys yng Nghymru Trefonnen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 208 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 28.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 27.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 16.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2013 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 28/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Yr Eglwys yng Nghymru Trefonnen yn lle diogel, anogol a bywiog ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion yn hoff iawn o ddod i'r ysgol ac yn falch o fod yn rhan o gymuned ddysgu gynhwysol a chefnogol. Mae'r staff yn adnabod ac yn parchu pob plentyn fel unigolyn. Mae'r parch hwn yn gweithio'r ddwy ffordd, ac mewn ystafelloedd dosbarth, mae'r perthnasoedd proffesiynol rhwng disgyblion a staff yn effeithiol. Yn ei dro, mae hyn yn helpu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu cynnydd a'u hymddygiad, ac yn cyfrannu at eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r ysgol yn gymuned amrywiol ac mae disgyblion yn datblygu hyder yn eu hunaniaeth unigol eu hunain, gan hefyd ddatblygu parch iach at bobl eraill. Dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn hapus yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Ceir ffocws cryf ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ym mhob dosbarth, yn enwedig ar ôl y pandemig, ac mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wneud yn siŵr fod disgyblion yn cyflawni'n dda gan ddefnyddio'r medrau hyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau datrys problemau mewn rhifedd yn ddigon aml, ac nid yw disgyblion hŷn yn mireinio darnau o ysgrifennu estynedig yn ddigonol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu i'r eithaf.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol. Mae'n gwerthfawrogi barn staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr, ac yn gwneud yn siŵr fod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yr ysgol yn gosod naws gadarnhaol ac uchelgeisiol ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd i ffynnu. Mae partneriaethau â rhieni ac asiantaethau arbenigol yn hynod effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth hollol gadarnhaol i gymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gynhwysol, gan drin pob un o'r disgyblion a'r teuluoedd â gofal, cwrteisi a pharch trwy ei gweithredoedd a'r cyfleoedd y mae'n eu darparu. Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, ar y cyfan, ac wedi nodi meysydd pwysig o waith yr ysgol maen nhw eisiau eu gwella. Mae hyn yn cynnwys gwella ansawdd adborth athrawon fel bod disgyblion yn gwybod ble a sut gallant wella'u gwaith.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion hŷn

A2 Gwella ansawdd adborth athrawon fel bod disgyblion yn deall ble a sut gallant wella'u gwaith

A3 Darparu cyfle i gymhwyso medrau rhifedd i weithgareddau datrys problemau mewn cyd-destun bywyd go iawn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud ag effaith prosiectau cymunedol yn yr ysgol ar les disgyblion a theuluoedd, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn dysgu a chaffael medrau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu'n dda o'u mannau cychwyn, ac mae grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u targedau unigol.

Yn y ffrwd Saesneg, mae medrau gwrando a siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau derbyn yn siarad yn hapus â'u ffrindiau ac oedolion, fel ei gilydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod beth maent yn ei wneud yn hyderus, a gyda geirfa dda yn Saesneg. Ym Mlynyddoedd 3 a 4, mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn estynedig fanteision gwarchod coed a sut maent yn rhoi ocsigen hanfodol i ni fyw. Maent yn dechrau darllen Saesneg gan ddefnyddio medrau ffoneg o'r dosbarth derbyn ymlaen, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ddarllenwyr hyderus a rhugl. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn deall ystyr y tu hwnt i'r testun, yn dangos medrau lefel uwch, fel brasddarllen, ac yn cyfeirio at elfennau o'r testun i gefnogi eu barn ar y cymeriadau. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau Cymraeg mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â datblygu eu medrau Cymraeg ac yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Maent yn ymateb yn briodol i ymadroddion cyffredinol, fel 'bore da, sut wyt ti?' Fodd bynnag, mae datblygiad darllen yn Gymraeg yn y ffrwd Saesneg yn gyfyngedig.

Yn y ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn datblygu eu Cymraeg yn dda trwy drochi yn yr iaith, a thrwy ymateb i orchmynion syml, er enghraifft 'dewch i eistedd ar y mat'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall brawddegau sylfaenol ac yn ymateb i gwestiynau'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd ymhellach trwy sgyrsiau syml. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn siarad yn glir a hyderus, ac yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau ffoneg i ddarllen llyfrau lluniau â brawddegau yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau darllen Cymraeg yn briodol, gan ddefnyddio'u dealltwriaeth o ffoneg i seinio a datgodio geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau cynyddol heriol yn Gymraeg a Saesneg. Defnyddiant lyfrau ffuglen a ffeithiol â hyder cynyddol tra bod ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwerthfawrogi themâu ymhlyg mewn llyfrau.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws y ddwy ffrwd yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn dechrau cofnodi eu syniadau trwy greu marciau ar bapur a chyfryngau eraill, ac yn gwneud cynnydd da â ffurfio llythrennau darllenadwy. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Mae ychydig o ddisgyblion yn golygu eu gwaith eu hunain i gywiro camgymeriadau a gwneud gwelliannau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r disgyblion yn y ddwy ffrwd yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol, ac mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau byr yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddefnyddio gramadeg cywir sy'n datblygu i fod yn ddetholiadau byr. Erbyn diwedd

Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth o'r darllenydd, ac yn defnyddio geiriau er effaith. Mae'r rhan fwyaf o eiriau wedi'u sillafu'n gywir, ac mae dechrau brawddegau yn amrywio. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, ysgrifennodd y disgyblion lythyr gan filwr y Rhyfel Byd Cyntaf at ei deulu tra oedd yn y ffosydd. At ei gilydd, nid yw disgyblion hŷn yn mireinio darnau o ysgrifennu estynedig yn ddigonol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu i'r eithaf. Ar draws yr ysgol, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ysgrifenedig yn aml yn rhy ddiofal.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif, er enghraifft wrth greu pictogram o liw llygaid disgyblion. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n hyderus â lluosi i ddatrys problemau syml. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn darganfod ffactorau rhif penodol, yn defnyddio technegau lluosi grid ac yn gweithio gyda chanrannau. Mae mwyafrif y disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn dechrau defnyddio'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd byd go iawn, er enghraifft cyfrifo'r gwesty rhataf i aros ynddo yn Llandrindod pan gaiff gostyngiadau canran eu cymhwyso. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau datrys problemau mewn rhifedd yn ddigon aml neu i lefel ddigon uchel.

Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau'n fedrus i greu gwaith celf, ffilmiau, pypedau a chyfansoddiadau cerddorol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn gwneud darluniau trawiadol wedi'u seilio ar waith Giuseppe Arcimboldo, ac yn arbrofi â phaent i efelychu arddull Rhiannon Roberts. Ym Mlynyddoedd 3 i 6, fe wnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion elwa trwy gymryd rhan ym mhrosiect creadigol 'Cynefin'. Fel rhan o'r prosiect, creodd disgyblion bypedau i ddeall materion ymhellach fel hiliaeth a phwysigrwydd goddefgarwch. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau creadigrwydd a medrau lles disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa'n gorfforol ar wersi'r ysgol goedwig, maent yn mwynhau'r profiad o fod yn yr awyr agored ac yn datblygu eu lles yn effeithiol. Hefyd, mae llawer o blant yn defnyddio'r ddarpariaeth amrywiol a diddorol y tu allan yn ystod amser chwarae, er enghraifft defnyddio'r llwybr antur i ddatblygu eu medrau corfforol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn datblygu a defnyddio eu medrau digidol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion o bob oedran yn defnyddio ystod eang o dechnoleg ac offer technolegol i ddatblygu eu dysgu. Maent yn cymhwyso eu medrau digidol ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu at ystod eang o ddibenion. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu ffilmiau byr i berswadio pobl i ymweld â Llandrindod.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a moesgar, ac maent yn rhyngweithio'n hyderus â'u cyfoedion ac oedolion, fel ei gilydd. Maent yn gydweithredol a chymwynasgar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, wrth symud o gwmpas yr adeilad, ac yn ystod amser egwyl. Maent yn deall ac yn ymateb yn dda i weithdrefnau'r ysgol i annog ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn gofal, ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn hyderus y bydd oedolion a disgyblion

eraill yn eu helpu os oes ganddynt broblem. Mae disgyblion yn awyddus i fynychu'r ysgol ac yn mwynhau'r amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn deall eu rôl mewn gofalu am ei gilydd, er enghraifft pan fyddant wrth law i gysuro ffrind sy'n teimlo'n ddigalon. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dechrau'r diwrnod yn teimlo bod staff yn eu deall ac yn gofalu amdanynt, oherwydd y ffordd strwythuredig y mae pob aelod o staff yn croesawu'r disgyblion i'r ysgol.

Mae disgyblion sydd â swyddi cyfrifol ar draws yr ysgol yn dangos balchder yn eu rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhannu ei syniadau a'i weithredoedd gyda disgyblion eraill. Mae aelodau'r Criw Cymraeg yn annog defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol ac yn trefnu digwyddiadau codi arian i brynu mwy o adnoddau Cymraeg. Sicrhaodd y Cyngor Eco fod cydweithio llwyddiannus rhwng grwpiau llais y disgybl trwy drefnu protest heddychlon o gwmpas Llandrindod i godi ymwybyddiaeth am lygredd plastig yn ein cefnforoedd. Caiff y gwaith caled a wneir gan grwpiau llais y disgybl yr ysgol ei gofnodi bob tymor ym mhapur newydd yr ysgol. Mae hyn wedi dod yn ffordd effeithiol o rannu rhai o gyflawniadau'r ysgol â'r gymuned leol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. O roi cyfle iddynt, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn frwdfrydig, er enghraifft wrth ddefnyddio'r llwybr campfa yn ystod amser egwyl, ac yn ystod gweithgareddau'r ysgol goedwig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall y peryglon sy'n gallu codi yn eu bywydau bob dydd, ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd i aros yn ddiogel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn amlinellu'r peryglon a allai godi o ganlyniad i ddefnydd anaddas o'r rhyngrwyd.

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r berthynas weithio gadarnhaol a gofalgar sy'n bodoli ymhlith disgyblion, a rhwng oedolion a disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth a gwerthfawrogiad am athrawon a staff cymorth. Mae cefnogaeth disgyblion i'w gilydd yn aeddfed ac ystyriol. Maent yn helpu ei gilydd i reoli eu teimladau trwy siarad a thrwy ddefnyddio strategaethau i ymdawelu ac ymlacio, fel gwrando ar gerddoriaeth neu dreulio amser gydag anifeiliaid yn ystod ymweliad poblogaidd y fferm dros dro.

O roi cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i adborth gan oedolion a'u cyfoedion i wella'u gwaith a datblygu eu medrau ymhellach. Mae disgyblion yn dechrau ystyried pa mor dda y maent yn dod yn eu blaenau gyda'u dysgu, a meddwl drostynt eu hunain ynghylch beth ddylai eu camau nesaf fod. Mae'r medr hwn yn llai datblygedig ymhlith y disgyblion hynaf.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, ac yn creu amgylchedd dysgu cefnogol. Maent yn annog parch a dealltwriaeth sy'n arwain at ethos cadarnhaol yr ysgol.

Mae'r paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn drylwyr a chynhwysol ac yn ystyried gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Mae arweinwyr yn rheoli'r cyfnod pontio yn dda i ymarfogi'r staff â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut mae'r cwricwlwm yn newid. Mae'r ysgol yn cydweithio â staff, disgyblion a rhieni i sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm newydd.

Mae cynllunio athrawon yn pennu themâu tymhorol clir ar gyfer dosbarthiadau ac yn ystyried anghenion a diddordebau'r disgyblion. Caiff disgyblion eu cynnwys mewn cynllunio testunau gyda phwyslais ar ddilyn eu diddordebau. Er enghraifft, cynhyrchodd un dosbarth fideos am 'Achub y Coedwigoedd' ('Saving the Forests') ar ôl mynegi diddordeb yn COP26. Er bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn casglu syniadau am eu dysgu, yn aml, caiff y gweithgareddau dysgu yn yr ystafell ddosbarth eu harwain gan athro.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio gwaith yn ofalus i weddu i oedran a gallu'r disgyblion. Mewn llawer o ddosbarthiadau, darperir tasgau wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau datrys problemau a thasgau ysgrifennu bob amser yn ddigon heriol. Ceir holi da gan yr athro yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, gan alluogi disgyblion i esbonio'u dealltwriaeth o'r dysgu, a datblygu i fod yn siaradwyr hyderus.

Mae mwyafrif y profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn amrywiol a diddorol, gan ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o fedrau tra byddant yn cael hwyl, er enghraifft creu stribed comig ac ysgrifennu a chofnodi adroddiad newyddion. Caiff dysgu trwy gydol y dydd ei drefnu i sicrhau bod disgyblion yn cael amrywiaeth o weithgareddau bob dydd. Mae hyn yn annog disgyblion i ymgysylltu â dysgu. Fodd bynnag, byddai'r disgyblion hŷn yn elwa ar gyfnodau amser hwy i gymhwyso'u medrau i ymestyn tasgau dysgu.

Rhoddir llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddarllen. Maent yn darllen i oedolion yn unigol, yn cymryd rhan mewn sesiynau darllen dan arweiniad mewn grwpiau ac yn cael eu hannog i ddarllen gydag aelodau'r teulu gartref ac yn yr ysgol, er enghraifft yn ystod sesiynau darllen Dydd Gwener y Teulu. Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd dysgu diddorol i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol da. Mae oedolion yn modelu'r Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol, sy'n gwneud cyfraniad buddiol at ddatblygu eu medrau llafaredd. Mae staff yn hynod gefnogol i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol, gan ddangos dealltwriaeth a gofal am eu holl ddisgyblion.

Mae holi athrawon yn dda ar draws yr ysgol ac yn darparu gwybodaeth werthfawr i athrawon asesu dealltwriaeth disgyblion a'r medrau y maent wedi'u datblygu. Mae adborth llafar i ddisgyblion yn gadarnhaol, yn dathlu llwyddiant, ond nid yw bob amser yn darparu syniadau a chymorth ar gyfer disgyblion hŷn i symud ymlaen yn eu dysgu. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac addysgiadol, gan roi gwybodaeth am fedrau

dysgu disgyblion, eu medrau cymdeithasol, y cynnydd a wnaed a thargedau ar gyfer y dyfodol.

Mae gan yr ysgol adnoddau da, a defnyddir y rhan fwyaf ohonynt yn effeithiol i gefnogi dysgu a hamdden. Mae'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored, sydd wedi'u dylunio'n dda, yn darparu cyfleoedd eithriadol o dda i ddisgyblion ddysgu, cymdeithasu a chwarae, er enghraifft datblygu medrau corfforol ar lwybr y coetir, ar feiciau, ac yn yr ardal goedwig.

Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy astudio'r ardal leol a pherfformio mewn Eisteddfod flynyddol. Mae'r patrwm Cymraeg wythnosol yn cynorthwyo'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn dda, gan helpu datblygu eu rhuglder a'u hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio'n rhagweithiol i wella'r Gymraeg ar draws yr ysgol mewn gwersi ac yn ystod amseroedd chwarae. Er enghraifft, maent wedi codi arian ar gyfer cael offer maes chwarae newydd, ac yn annog sgyrsiau Cymraeg yn ystod amser chwarae.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn adnabod ei disgyblion, eu cefndiroedd, a'r gymuned leol yn dda iawn. Mae pob un o'r staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r ffocws cryf hwn ar wella lles disgyblion yn agwedd allweddol ar ddarpariaeth yr ysgol.

Caiff ethos yr ysgol ei atgyfnerthu'n gyson gyda disgyblion yn ystod pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth gref o werthoedd yr ysgol, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion wedi datblygu parch, dealltwriaeth a goddefgarwch tuag at bobl eraill. Mae oedolion yn sicrhau bod disgyblion yn ystyried gwerthoedd fel gonestrwydd, cynaliadwyedd, a pharch yn rheolaidd trwy gwricwlwm amrywiol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau ystafell ddosbarth.

Mae staff wedi datblygu amrywiaeth o systemau effeithiol i sicrhau bod disgyblion a'u teuluoedd yn cael yr anogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cyflogi swyddog cyswllt teuluoedd i roi cymorth penodol i ddisgyblion a nodwyd a'u rhieni. Mae'r tîm cyswllt teuluoedd yn gweithio'n galed i sicrhau cyllid gan fusnesau lleol, ac maent yn allweddol wrth drefnu gweithgareddau codi arian i'r gymuned. Defnyddir cyllid yn briodol i ddarparu ystod eang o gymorth i deuluoedd. Er enghraifft, mae'r ysgol yn dod o hyd i fwyd a dillad, ac yn eu darparu'n sensitif ar gyfer teuluoedd trwy brosiectau fel Clwb Bwyd (Grub Club), Oergell Gymunedol a Storfa Fwyd.

Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o strategaethau a phrosesau i hyrwyddo a chefnogi cyfraddau presenoldeb cadarnhaol. Mae'n dangos lefel uchel o ymrwymiad i gadw dysgwyr yn ddiogel trwy ei diwylliant, ethos a'r profiadau dysgu mae'n eu darparu.

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod gweithdrefnau cadarn i nodi anghenion ychwanegol disgyblion ac yn monitro effaith ymyriadau rheolaidd yn drylwyr. Caiff disgyblion ag ADY eu nodi a'u cynorthwyo'n gyflym, ac mae darpariaeth deilwredig i ddiwallu eu hanghenion unigol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn grwpiau cymorth. Mae'r ysgol yn

darparu ystod eang o gymorth buddiol i helpu disgyblion yn emosiynol ac yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn profi effaith leddfol bod gydag anifeiliaid yn ystod teithiau cerdded gydag alpacaod, yn mynychu therapi chwarae ac yn cael mynediad at yr ystafell 'Hafan Fach', lle mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fod yn egnïol yn ystod y diwrnod ysgol, a gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. O ganlyniad, mae disgyblion yn bwyta byrbrydau iach ac yn cymryd rhan yn y filltir ddyddiol. Mae staff yr ysgol a thîm o wirfoddolwyr yn cynnwys y disgyblion a'u teuluoedd mewn llawer o brosiectau cyffrous i wella iechyd a lles disgyblion. Er enghraifft, rhoddir cynnyrch garddio i deuluoedd o blot llysiau'r ysgol, a gall disgyblion gymryd rhan yng 'Nghlwb Bwyd a Hwyl yr Haf'.

Mae staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys clwb iaith arwyddion a Chlwb Garddio Dydd Llun lle mae plant hŷn yn cael cyfleoedd i dyfu cynnyrch ffres sy'n cael ei ddosbarthu i deuluoedd o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, gan gynnwys carnifal y dref lle bu'r disgyblion yn dylunio ac addurno fflôt a oedd wedi'i seilio ar y gymuned a'i hamrywiaeth. Mae'r ysgol yn dathlu llawer o ddiwylliannau, gan gynnwys rhai Seisnig, Cymreig, Thai, Portiwgeaidd, ac iaith arwyddion. Mae disgyblion sydd wedi dysgu iaith arwyddion yn perfformio'n rheolaidd yn ystod gwasanaethau ysgol.

Ceir nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol, a datblygu eu medrau arwain trwy ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol fel cynghorydd ysgol neu fod yn aelod o'r Criw Cymraeg. Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio'n rhagweithiol i wella'r Gymraeg ar draws yr ysgol mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Er enghraifft, maent wedi codi arian ar gyfer offer maes chwarae newydd, ac yn annog sgyrsiau Cymraeg yn ystod amser chwarae.

Mae'r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig yn gadarnhaol. Mae cyfleoedd dysgu wedi'u seilio ar yr ardal leol yn nodwedd gyffredin yn yr ysgol; er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dylunio taflenni i ddangos yr hyn mae Llandrindod yn ei gynnig. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, lle gall plant berfformio yn yr Eisteddfod.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a phwrpasol. Mae'n rhoi lles disgyblion a chwricwlwm creadigol wrth wraidd gweledigaeth ac athroniaeth yr ysgol, ac mae'n cyfleu hyn yn effeithiol i bob un o'r staff a'r rhanddeiliaid.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel priodol sy'n helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal safonau uchel a'u bod yn datblygu agweddau cadarnhaol a brwdfrydig at ddysgu. Mae staff yn gweithio'n dda fel tîm i gefnogi gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol. Mae staff yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n frwdfrydig i gefnogi dysgu a lles disgyblion, sy'n cynnwys cynnal nifer o glybiau buddiol ar ôl yr ysgol. Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol â rhieni a'r gymuned leol ehangach i hyrwyddo profiadau dysgu ysgogol a

chefnogol ar gyfer disgyblion, er enghraifft trwy gydweithio â busnes lleol i greu blychau crefft ar gyfer teuluoedd y gymuned.

Bu arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol yn ystod y pandemig i sefydlu systemau cryf i sicrhau parhad y dysgu ar gyfer disgyblion. Gosododd y pennaeth ddisgwyliadau clir o arweinwyr ac aelodau staff eraill, ac ymatebont yn gyflym trwy gydol y pandemig i addasu dulliau i ddiwallu anghenion disgyblion a'r gymuned. Er enghraifft, defnyddiont gyfuniad effeithiol o addysgu byw a sesiynau gwirio ochr yn ochr â thasgau dysgu annibynnol i ymgysylltu â disgyblion a chefnogi eu cynnydd.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cynnwys ffocws clir ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol, sy'n cynnwys newidiadau cadarnhaol yn barod ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Mae prosesau'r ysgol i werthuso'i heffeithiolrwydd yn bwrpasol ac wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth am ansawdd darpariaeth yr ysgol yn cynnwys gwrando ar ddisgyblion a rhieni, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith yn drylwyr. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwelliannau, fel canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion ar ôl y pandemig. Maent yn gwneud yn siŵr fod pob aelod o staff yn gweithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar feysydd mae'r ysgol wedi nodi eu bod yn flaenoriaeth, ac yn gwerthuso cynnydd gwelliannau arfaethedig yn bwrpasol.

Mae gweithdrefnau i reoli perfformiad staff yn werth chweil. Mae arweinwyr yn datblygu gwybodaeth a medrau staff yn effeithiol. Maent yn rheoli adnoddau yn llwyddiannus i gynorthwyo disgyblion a hyrwyddo gwelliannau rheolaidd ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfle i elwa ar gyfleoedd perthnasol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol, fel cyrsiau Cymraeg sabothol, ac maent yn cysylltu'r rhain yn agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r pennaeth ac yn ei dwyn i gyfrif yn drylwyr fel ffrindiau beirniadol. Mae uwch arweinwyr yn rhoi gwybod i'r llywodraethwyr yn effeithiol am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Maent yn trefnu iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau i ennill dealltwriaeth uniongyrchol o waith yr ysgol, sydd o fudd i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn mynd ar deithiau dysgu ac yn edrych ar ansawdd gwaith disgyblion ochr yn ochr ag athrawon i ddatblygu dealltwriaeth werthfawr o arferion presennol yr ysgol. At ei gilydd, mae gan arweinwyr ffocws ar gynorthwyo'i disgyblion a'u lles, trwy weithio'n briodol gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo diwylliant effeithiol o ddiogelu gyda threfniadau cadarn ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn monitro cynlluniau gwariant yn drylwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion a nodwyd. Mae'r ysgol yn cyflogi staff addysgu a staff cymorth medrus i gyflwyno ystod o ymyriadau i'r disgyblion hyn i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Defnyddir cyllid ychwanegol, dynodedig yn

bwrpasol, er enghraifft i ariannu darpariaeth arbenigol i helpu unigolion i ddelio â gorbryder. Mae arweinwyr yn monitro effaith y ddarpariaeth a’r adnoddau ychwanegol yn agos i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/08/2022